# Polisi Cynaliadwyedd Prifysgol Abertawe 2026 - 2027

Mae Prifysgol Abertawe'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil ac addysgu arloesol sydd â goblygiadau dwfn o ran deall a gwarchod yr amgylchedd ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys prosiectau dim allyriadau carbon sy'n chwarae rôl sylweddol wrth arwain y DU tuag at systemau ynni di-garbon, cyfraith amgylcheddol ac ynni, newid yn yr hinsawdd a rhewlifeg, bioamrywiaeth a chadwraeth, a dyframaethu cynaliadwy - yn ogystal â'r seicoleg amgylcheddol sydd ei hangen i ddeall sut mae ymddygiadau dynol yn chwarae rôl wrth warchod yr amgylchedd. Mae'r gweithgareddau ymchwil ac addysgu hyn yn gyfraniad mawr gan y Brifysgol at fynd i'r afael â heriau cynaliadwyedd byd-eang.

Gyda throsiant blynyddol o fwy na £300 miliwn, a chymuned o fwy na 20,000 o fyfyrwyr a staff, rydym hefyd yn cydnabod yr angen i reoli ein gweithrediadau mewn ffordd gynaliadwy a chyfrifol er budd pawb, gan ddefnyddio'r Brifysgol fel "labordy byw" er mwyn darparu atebion a sgiliau i fynd i'r afael â heriau byd-eang, sy'n cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru 2015. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein campysau'n rhai sero net ac yn natur-bositif erbyn 2035 fel rhan o Strategaeth Cynaliadwyedd y Brifysgol [1], gan gydnabod yr argyfyngau hinsawdd ac ecolegol y mae cenedlaethau'r presennol a rhai'r dyfodol yn eu hwynebu. Bydd y Polisi Cynaliadwyedd hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol, bydd ar gael i'r cyhoedd a phawb sydd â diddordeb, a bydd yn cael ei rannu â holl fyfyrwyr a staff y Brifysgol.

## Mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymo i'r canlynol:

1. Sicrhau bod ei champysau'n rhai di-garbon ac yn sero net erbyn 2035.
2. Hyrwyddo amrywiaeth fiolegol a dod yn brifysgol sy'n natur-bositif.
3. Arddangos ymagweddau cynaliadwy at yr amgylchedd adeiledig yn ein prosiectau adeiladu, adnewyddu a chynnal a chadw.
4. Gosod targedau er mwyn lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai, gan gynnwys tanwyddau ffosil a dŵr, gan atal gwastraff, dargyfeirio deunyddiau o adnewyddu ynni, a hyrwyddo economi gylchol drwy fynd y tu hwnt i ailgylchu.
5. Gwreiddio ymagweddau cynaliadwy a moesegol yn rhan o gaffael nwyddau a gwasanaethau’r Brifysgol.
6. Annog staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i deithio mewn modd llesol a chynaliadwy.
7. Hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy (ESD) a Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig (SDGs) trwy ymchwil, arloesedd a chwricwla ffurfiol ac anffurfiol.
8. Cefnogi gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau mwy cynaliadwy ledled y Brifysgol a'r gymuned ehangach drwy weithio gydag Undeb y Myfyrwyr a phartneriaid eraill i wella cynaliadwyedd y Brifysgol a chymunedau lleol.
9. Addasu i newid yn yr hinsawdd gan sicrhau gwydnwch a pharhad gweithrediadau a gwasanaethau.
10. Diogelu'r amgylchedd drwy atal llygredd ac ymrwymiadau perthnasol eraill, gan gyflawni ein rhwymedigaethau cydymffurfiaeth amgylcheddol a gwella perfformiad amgylcheddol yn barhaus drwy achrediad Rheoli Amgylcheddol ISO 14001 drwy osod, monitro, adolygu a chyhoeddi amcanion perthnasol sy'n arddangos gwelliant parhaus yn ein perfformiad amgylcheddol.

**Arwyddwyd ar ran yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth:**



**Enw a swydd:** Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor
**Dyddiad:** 17th June 2026

[1] Yn amodol ar gynaliadwyedd ariannol a ffynonellau cyllid.